Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Adran Addysg**
Neuadd y Ddinas, Ffordd San Helen,
Abertawe, SA1 4PE
www.abertawe.gov.uk

*Gofynnwch am:*
*Llinell Uniongyrchol:*
*E-bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 8 Medi 2023

Annwyl Riant/Gwarcheidiaid

Fel y gwyddoch eisoes, mae undeb athrawon NASUWT yn streicio mewn ysgolion uwchradd yn Abertawe ar 13 Medi gyda diwrnodau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer 19 a 20 Medi 2023.

Mae Cyngor Abertawe yn annog NASUWT i ganslo'r streic. Mae'r gweithredu diwydiannol ym mis Gorffennaf eisoes wedi achosi aflonyddwch i'n hysgolion uwchradd, ein disgyblion a'u teuluoedd.

Mae'r trafodaethau presennol wedi oedi ond mae'r Cyngor wedi mynd mor bell ag y gall drwy gytuno i bedwar o bum galw'r undeb.

Mae'r undeb wedi bod yn seilio'r gweithredu diwydiannol fel mater am ymddygiad treisgar gan ddisgyblion pan, mewn gwirionedd, mae'r anghydfod yn ymwneud ag un athro a ddiswyddwyd am ddefnyddio grym gormodol yn erbyn plentyn. Mae'r NASUWT hefyd wedi honni yn y wasg fod yr anghydfod hwn hefyd yn ymwneud ag athrawon sy'n wynebu digwyddiadau treisgar. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddisgybl treisgar yn yr achos penodol hwn.

Fel cyflogwr, mae Cyngor Abertawe yn rhoi gwerth uchel ar ddiogelu oedolion a phlant. Mae'r cyngor yn cydnabod gweithwyr ysgol fel gweithwyr proffesiynol gofalgar, ymroddedig sydd hefyd yn rhoi gwerth uchel ar ddiogelu plant a phobl ifanc fel rhan o'u safonau proffesiynol a chod ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg.

Mae athrawon a staff ysgolion fel arfer yn sicrhau, pan fydd angen iddynt ymyrryd yn gorfforol â disgybl, ei fod yn gymesur, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Byddwn yn parhau â'n deialog gyda'r NASUWT mewn ymgais i ddatrys y mater hwn ac i sicrhau y gall ein disgyblion barhau i dderbyn eu haddysg y mae ganddynt hawl iddo.

Yn gywir

Adran Addysg

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL